

Dewch i siarad am:

Diwylliant a Chwaraeon yng Nghymru




Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Mae diwylliant a chwaraeon yn rhan o fywyd bob dydd

Gallan nhw ein helpu i gael hwyl, cadw'n actif, dysgu pethau newydd a threulio amser gyda phobl eraill.

Mae hyn yn cynnwys:



Rydyn ni'n gwneud cynllun ar gyfer dyfodol diwylliant a chwaraeon yng Nghymru - ac rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl.





**Rydyn ni eisiau i bawb yng
Nghymru gael cyfle i fwynhau
diwylliant a chwaraeon.**



**Rydyn ni eisiau i Gymru
fod yn lle gwych ar gyfer
diwylliant a chwaraeon.**

**Rydyn ni'n meddwl efallai bod y pethau hyn yn bwysig
— ydych chi'n cytuno?**

**Rydyn ni eisiau i
ddiwylliant a chwaraeon
helpu pobl i fod yn actif,
yn iach ac yn hapus.**

**Rydyn ni eisiau creu
swyddi a rhoi cyfleoedd
i bobl roi cynnig ar
bethau newydd.**

**Rydyn ni eisiau i lefydd fel clybiau
chwaraeon, amgueddfeydd ac orielau
aros ar agor a gwneud yn dda. Bydd
hyn yn rhoi cyfle i bawb eu mwynhau.**

**Rydyn ni eisiau i blant a
phobl ifanc allu ymuno,
rhoi cynnig ar rywbeth
newydd a dysgu sgiliau
newydd.**

**Rydyn ni eisiau i ddiwylliant
a chwaraeon ddod â phobl at
ei gilydd i gael hwyl, rhannu
syniadau a gwneud pethau
gyda'i gilydd.**

**Rydyn ni eisiau i bobl
ddathlu Cymru a rhannu'r
pethau sy'n gwneud
Cymru'n arbennig gyda
gweddill y byd.**



? Beth ydych chi'n ei feddwl?

Dyma ein syniadau ni.

Nawr rydyn ni eisiau clywed eich syniadau chi.

Gall eich profiadau a'ch syniadau helpu i lunio'r cynllun.

1. Sut mae pethau nawr?

Meddyliwch am:

- ➡ Beth ydych chi'n mwynhau ei wneud?
- ➡ Pa chwaraeon neu weithgareddau ydych chi'n eu hoffi?
- ➡ Oes yna resymau pam nad ydych chi'n gallu cymryd rhan mewn diwylliant a chwaraeon?

2. Sut dylai pethau fod ymhen 10 mlynedd?


Dychmygwch Gymru pan fyddwch chi'n hŷn:

- ➡ Beth fyddai'n gwneud diwylliant a chwaraeon yn wych i blant?

3. Sut gallwn ni wneud iddo ddigwydd?

Meddyliwch am:

- ➡ Beth sydd angen i ni ei wneud i wella pethau?





Diolch am gymryd rhan – mae eich syniadau'n bwysig



Bydd eich atebion yn ein helpu i ysgrifennu **Cynllun Diwylliant a Chwaraeon newydd i Gymru.**

-  Rydyn ni'n cadw eich gwybodaeth yn breifat.
-  Fyddwn ni ddim yn rhoi eich enw gyda'ch atebion.
-  Byddwn ni'n edrych ar eich syniadau gyda syniadau pawb arall.

Anfonwch eich atebion i:

 StrategaethDiwylliantaChwaraeon@llyw.cymru

 erbyn dydd Gwener 18 Rhagfyr

